Gweithredu mewn busnes cig

O ganlyniad, rydym ni a Safonau Bwyd yr Alban yn ymchwilio i holl safleoedd Russell Hume, a lleoliadau eraill lle caiff eu cynhyrchion eu storio, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Nid oedd Russell Hume yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â rheolau hylendid bwyd yn ei safleoedd, felly rydym ni wedi atal yr holl gynhyrchion rhag gadael eu safleoedd hyd nes y gall y busnes roi sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a'i fod yn cynhyrchu bwyd diogel. Rydym hefyd wedi gorchymyn Russell Hume i dynnu'r holl gynhyrchion sy'n rhan o'r digwyddiad hwn yn ôl o'r gadwyn gyflenwi.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod pobl wedi mynd yn sâl yn sgil bwyta cig a gyflenwir gan Russell Hume. Fodd bynnag, rydym ni'n pryderu am yr arferion gwael sydd ar waith yn eu safleoedd ac felly wedi cymryd camau cymesur i sicrhau na all unrhyw gig adael eu safleoedd ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i asesu'r sefyllfa.

Caiff cig ei ddosbarthu o Russell Hume i amrywiaeth o siopau, gan gynnwys busnesau lletygarwch ac arlwyo, a chartrefi gofal ac ysgolion. Mae'r holl gig a gyflenwyd gan Russell Hume ac sydd heb ei ddefnyddio eto wedi'i dynnu'n ôl o'r busnesau y mae'r cwmni yn eu cyflenwi hyd nes y gallant roi sicrwydd am ddiogelwch y bwyd. Mae'r cwmni'n cydweithio â'n hymchwiliad ac wrthi'n adolygu ei weithdrefnau ac ailhyfforddi ei staff.

Mae ein hymchwiliadau yn parhau.